**Rebecca Evans AM/AC**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Kathryn Bishop
Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru

2 Ebrill 2019

Annwyl Kathryn,

**LLYTHYR CYLCH GWAITH AWDURDOD CYLLID CYMRU**

Rwy'n ddiolchgar i bawb yn Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) sydd wedi chwarae rhan am eu holl waith caled ers cyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi ym mis Ebrill 2018. Yn sgil hyn, mae ACC yn gwbl weithredol erbyn hyn ac mae'n casglu ac yn rheoli'n effeithiol ddwy dreth Gymreig newydd sy'n ariannu'r gwasanaethau cyhoeddus o safon yr ydym ni, bob un ohonom, am eu gweld.

Ysgrifennodd Mark Drakeford AC, yn rhinwedd ei rôl flaenorol fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, atoch ar 19 Rhagfyr 2017 yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ACC yn ystod ei gyfnod cynllunio cyntaf rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019. Dyma hwy:

1) Casglu trethi datganoledig – galluogi pobl i dalu'r swm cywir o drethi ar yr adeg gywir
2) Rheoli'r system dreth ddatganoledig er mwyn helpu i atal a mynd i'r afael ag efadu trethi
3) Darparu gwasanaethau cyhoeddus – arwain gwelliannau i weinyddiaeth trethi datganoledig yng Nghymru.

Mae clywed am y cynnydd a wnaed i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn destun calondid imi.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu fy nisgwyliadau ar gyfer ACC dros gyfnod 2019-20 i 2021-22ac rwy'n gobeithio y byddant o gymorth ar gyfer cynllunio at y tymor hwy. Byddwn yn disgwyl i Gynllun Corfforaethol ACC sydd ar fin ymddangos adlewyrchu'r disgwyliadau ychwanegol hyn, a nodi sut y bydd pob un ohonynt yn cael ei gyflawni.

<u>Datblygiad Parhaus Awdurdod Cyllid Cymru</u>

Yn gyntaf oll rwyf am i ACC adeiladu ar y cyflawniadau hyd yma. Wrth inni agosáu at ddiwedd blwyddyn ariannol lawn gyntaf ACC fel adran anweinidogol weithredol, mae'n bwysig myfyrio ar y gwersi a nodwyd a dechrau ystyried rôl ACC wrth edrych ymlaen at y tymor hwy. Yn yr un modd rwy'n cydnabod hefyd fod heriau a gweithgareddau newydd yn debygol o godi nad yw ACC wedi gorfod ymgymryd â nhw hyd yma. Rwy'n ddiolchgar am y

sgyrsiau cadarnhaol sy'n parhau rhwng ACC a fy swyddogion yn Nhrysorlys Cymru yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn ehangach ynghylch hyn. Yn fwy cyffredinol, rwy'n gwybod bod ACC yn parhau i gydnabod pwysigrwydd meithrin perthynas â lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng y naill ochr a'r llall gyda'ch holl bartneriaid.

Rwy'n hapus i gymeradwyo diben cyffredinol ACC i:

- Gynllunio gwasanaethau refeniw cenedlaethol Cymru a'u cyflenwi
- Arwain ar y defnydd gorau o ddata trethdalwyr Cymru ar gyfer Cymru

Fel yr ydych yn gwybod, ar 27 Chwefror, cyhoeddais Gynllun Gwaith y Polisi Trethi ar gyfer 2019. Mae'r cynllun hwnnw yn cynnwys ymrwymiad i feithrin agwedd fwy effeithiol a chydlynus at drethi ar draws y trethi Cymreig presennol ac ar draws y maes trethi yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr achos dros fabwysiadu agwedd fwy strategol a chydgysylltiedig at flaenoriaethau gweinyddu trethi dros y tymor canolig. Fel rhan o'r agenda ehangach honno gan Lywodraeth Cymru, rwy'n falch bod ACC yn bwriadu datblygu ei rôl mewn perthynas â:

- Elwa i'r eithaf ar asedau **data**, gan gynnwys gwaith gyda phartneriaid sy'n dal data am drethdalwyr Cymru i wella'r ffordd y mae'r wybodaeth honno yn cael ei rhannu a'i dadansoddi

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ehangach i gefnogi, lle bo hynny'n briodol, y broses o **ddylunio** gwasanaethau refeniw cenedlaethol Cymru.

Cefais fy nghalonogi o glywed am Ganlyniadau Arolwg Staff rhagorol ACC sy'n dangos yn glir bod aelodau o staff yn teimlo bod ACC yn lle da i weithio. Rwy'n amlwg yn awyddus i weld y momentwm a'r ynni cadarnhaol hyn yn ACC yn parhau. Dylai hyn arwain at sefydliad hyd yn oed mwy effeithiol sy'n parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a chanolbwyntio ar y cwsmer.

Rwy'n ymwybodol hefyd fod ACC yn ystyried sut y gall gynyddu ei allu digidol. Yn amodol ar ystyriaethau cyllidebol ehangach, byddwn yn cefnogi dull sy'n galluogi ACC i fod yn fwy hyblyg a chydnerth er mwyn datblygu gwasanaethau digidol ac wrth weinyddu trethi yn y dyfodol.

<u>Gwireddu Canlyniadau</u>

Rydym wedi trafod pa mor bwysig ydyw i ACC ddatblygu cyfres o fesurau perfformiad gweithredol i nodi pa mor effeithiol y mae'r system drethi yng Nghymru yn gweithredu. Fel yr ydych yn gwybod, rwy'n cymeradwyo'r dull newydd sy'n ceisio cefnogi pobl i dalu'r dreth gywir ar yr adeg gywir a fabwysiadwyd gan ACC.

Dylid seilio'r angen i fesur perfformiad ACC ar bedwar amcan strategol yr awdurdod trethi:

- Ei gwneud hi'n **haws** i bobl dalu'r swm cywir o drethi ar yr adeg gywir;

- Sicrhau bod ACC yn **deg** ac yn gyson

- Bod yn fwy **effeithlon** wrth gynnig gwerth am arian a chynaliadwyedd

- Gwella **gallu** yn ACC.

Fel rhan o'r dull hwn byddwn am weld ACC yn datblygu mesurau perfformiad sy'n symud i ffwrdd o'r mesur traddodiadol o 'arenillion', hynny yw y trethi ychwanegol a gesglir yn dilyn ymchwiliadau i ffurflenni trethi a gyflwynwyd. Rhaid i'r ACC, wrth reswm, barhau i gasglu arenillion cydymffurfedd, ond y cwbl fyddai mesur llwyddiant fel hyn yn ei wneud yw canolbwyntio ar gasglu ffurflenni sy'n anghywir.

Dylai ACC barhau i gyhoeddi'r swm o drethi a gasglwyd, ond mae'n amlwg yn annhebygol y ceir unrhyw un mesur penodol sut y mae ACC yn cyflawni ei amcanion strategol. Yn hytrach, dylid datblygu adroddiad naratif yn rhoi manylion amrywiaeth eang o weithgareddau a gynhaliwyd. Rwyf am osgoi targedau amrwd, ond byddwn yn dal i ddisgwyl i'r fframwaith mesur perfformiad ddangos yn benodol:

- Sut mae ACC wedi lleihau'r perygl o risg

- Sut brofiad y mae pobl yn ei gael wrth ddod i gysylltiad ag ACC.

Er fy mod i'n derbyn bod hwn yn fath gwahanol o fesur perfformiad a fydd yn golygu y bydd yn fwy anodd cymharu'n uniongyrchol ag awdurdodau trethi eraill, rwy'n hyderus ei fod yn adlewyrchu'n well yr agwedd at drethi yr ydym yn awyddus i'w hyrwyddo yng Nghymru ac y bydd yn ysgogi'r ymddygiadau a'r canlyniadau yr ydym yn dymuno eu gweld.

<u>Gwarediadau heb eu hawdurdodi</u>

Fel yr ydych yn ymwybodol, treth ymddygiadol yw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n ceisio dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yn ogystal â chosbi am warediadau heb eu hawdurdodi er mwyn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella ein hamgylchedd. Dywedodd Mark Drakeford yn ei lythyr ym mis Rhagfyr 2017 fod disgwyl i ACC yn ystod ei flwyddyn gyflawn gyntaf o weithredu gasglu a dadansoddi data mewn perthynas â'r math o warediadau heb eu hawdurdodi yng Nghymru, ynghyd â'r raddfa.

Yn seiliedig ar y gwaith y mae ACC a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud hyd yma, rwy'n derbyn bod angen targedu eich adnoddau i ganolbwyntio ar achosion sy'n:

- Mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol

- Effeithio mewn ffordd niweidiol ar fusnesau tirlenwi a rheoli gwastraff cyfreithlon

Mae hyn yn gyson â'r agwedd newydd at gasglu trethi yng Nghymru. Nid wyf yn dymuno gweld ACC yn canolbwyntio o reidrwydd ar achosion sydd yn arwain at gasglu'r uchafswm treth posibl yn unig. Gallai mesur llwyddiant fel hyn fod yn groes i'r dull ataliol sy'n ceisio newid ymddygiadau.

Rwy'n ddiolchgar am y gwaith agos rydych chi wedi'i wneud gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n gwybod hefyd eich bod yn bwriadu parhau i flaenoriaethu'r berthynas hon i ystyried sut y gallwch fynd i'r afael â throseddau gwastraff mewn partneriaeth. Yn ogystal â hynny, rwy'n croesawu eich bwriad i gryfhau gwaith partneriaeth gydag awdurdodau lleol oherwydd eu rôl bwysig yn mynd i'r afael â dympio anghyfreithlon yn ogystal â'r diwydiant ei hun.

Er bod yr amcanion hyn dros y tair blynedd nesaf yn darparu mwy o sefydlogrwydd, mae'n amlwg bod angen i ACC, fel pob sefydliad arallyn y sector cyhoeddus, allu cadw rhywfaint o hyblygrwydd.  Er enghraifft, os bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd gall fod angen i Lywodraeth Cymru ystyried rhyw fath o ymyrraeth gyllidol i fynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau economaidd.

Gall fod angen inni hefyd ailystyried y disgwyliadau o ystyried natur flynyddol cyllideb ACC. Cytunwyd ar gyllideb o £6m ar gyfer 2019-20 ond rwy'n gwybod bod trafodaethau'n parhau am yr angen sydd am arian ychwanegol. Bydd fy swyddogion yn ysgrifennu maes o law at Dyfed Alsop, y Prif Weithredwr, yn rhoi manylion y gyllideb weithredol derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Er fy mod i'n bwriadu ailystyried y blaenoriaethau hyn bob blwyddyn, ac ysgrifennu ymhellach amdanynt o bosibl, dylech fod yn dawel eich meddyliau y byddwn yn parhau i geisio dull cydweithredol rhwng ACC a Thrysorlys Cymru er mwyn cytuno ar amcanion.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AM/AC**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

*CC: Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru; Prif Weithredwr ACC; Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru.*